

## Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil

### Rhifyn 8: Chwefror 2024

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR. Os ydych chi / eich lleoliad yn ymgymryd ag unrhyw ymchwil/ymholiadau, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu hyn gyda'r Bartneriaeth. Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y bwletinau hyn, cysylltwch ag Alison Glover ([alison.glover@open.ac.uk](mailto:alison.glover@open.ac.uk)).

### Yn y rhifyn hwn .....



**Lleihau safbwyntiau ystrydebol gwyddonwyr:** Ymyrraeth sy'n ddefnyddio modelau rôl gwyddoniaeth gyda phlant oed cynradd.



**Canfyddiadau disgyblion o gynefin (perthyn):** Astudiaeth yn archwilio dealltwriaeth plant o le a hunaniaeth.



**Rhaglen ddawns a llythrennedd a rhifedd:** Effaith rhaglen ddawns integredig cwricwlwm chwe wythnos.



**Asesu llesiant yn y Blynyddoedd Cynnar:** Ymarferwyr yn trafod ansicrwydd ynghylch sut i asesu lles plant.



**Gweithgareddau ymchwil partneriaeth:** Prosiectau sy'n archwilio gosod targedau ar gyfer athrawon ar ddechrau eu gyrfa a datblygu sgysrsiau proffesiynol.



### Lleihau safbwyntiau ystrydebol gwyddonwyr

*'Roedd effaith yr ymyrraeth yn fwy arwyddocaol i ddynion, gyda newidiadau sylweddol yn cael eu cynnal ar ôl blwyddyn.'*

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull rheoli achosion, gan olrhain 118 o bobl ifanc rhwng 7 ac 11 oed mewn ysgol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr. Casglwyd geiriau sy'n gysylltiedig â gwyddonwyr cyn ac ar ôl (yn uniongyrchol, mis, blwyddyn) yr ymyrraeth. Cyn yr ymyrraeth (ddisgrifio pum model rôl gwyddoniaeth), roedd plant yn dal llawer o'r stereoteipiau cyffredin sy'n gysylltiedig â gwyddonwyr. Yn fuan wedyn, a blwyddyn yn ddiweddarach, roedd y defnydd o stereoteipiau cyffredin wedi gostwng yn sylweddol i bob plentyn, gyda gwelliannau penodol yn y defnydd o eiriau gwrth-ystrydebol ar gyfer dynion. Canfu hefyd fod delweddau ystrydebol o wyddonwyr fel rhai hynod ddeallus yn anos i'w gwrthweithio a bod llawer o'r newidiadau cadarnhaol yn y farn hon a welwyd yn y tymor byr (wythnosau a misoedd) wedi lleihau yn y tymor hir (blwyddyn yn ddiweddarach). Felly, gydag ychydig iawn o gost, gellir lleihau stereoteipiau negyddol o wyddonwyr heb ddod â gwyddonwyr i'r ystafell ddosbarth. Parhaodd rhai o'r newidiadau a welwyd yn y tymor hwy, gan awgrymu newid parhaol yng nghanfyddiadau plant o wyddonwyr yn dilyn yr ymyrraeth.

Shimwell, J., DeWitt, J., Davenport, C., Padwick, A., Sanderson, J. and Strachan, R. (2023) Scientist of the week: evaluating effects of a teacher-led STEM intervention to reduce stereotypical views of scientists in young children, *Research in Science & Technological Education*, 41(2), pp. 423-443, doi:10.1080/02635143.2021.1941840.



## Canfyddiadau disgyblion o gynefin (perthyn)

*'Mae clywed y tonnau ar y traeth yng Nghymru yn gwneud i mi deimlo fy mod i fod yma.'*

Mae 'Cynefin' ('y man lle rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n perthyn') yn greiddiol i ddatblygu dealltwriaeth plant o le a hunaniaeth. Er bod cynefin wedi cael ei ystyried ers amser maith mewn cyd-destun diwylliannol a threftadaeth ehangach yng Nghymru, nid yw'n cael ei ddeall yn glir eto mewn addysg, ac anaml y caiff ei archwilio o safbwynt y disgyblion. Defnyddiodd data a gasglwyd gan grwpiau ffocws mewn pedair ysgol gynradd yng Nghymru (n = 67 o blant, 7–10 oed), ffotograffau i sgaffaldio'r sgwrs. Anogwyd y disgyblion i dynnu, neu ddod o hyd i uchafswm o bedair delwedd ddigidol o unrhyw beth oedd yn ei olygu iddynt (nid oedd y delweddau yn cynnwys pobl). Daeth themâu o bobl, lle, gweithgaredd ac emosiynau/teimladau i'r amlwg, a oedd yn cydgysylltu mewn ffyrdd lluosog, aflinol, ac unigryw, sy'n dangos pwysigrwydd naws mewn dylunio cwricwla lefel sylfaenol.

Chapman, A., Ellis, R., Beauchamp, G., Sheriff, L., Stacey, D., Waters-Davies, J., Lewis, A., Jones, C., Griffiths, M., Chapman, S., Wallis, R., Sheen, E., Crick, T., Lewis, H., French, G. and Atherton, S. (2023) 'My picture is not in Wales': pupils' perceptions of cynefin (Belonging) in primary school curriculum development in Wales, *Education 3-13*, 51(8), pp. 1214-1228.



## Rhaglen ddawns a llythrennedd a rhifedd

*'Dysgais sut i wneud sleid hip hop . . . fy mesuriad oedd 173 cm.'*

Gwerthusodd yr astudiaeth hon y newidiadau mewn lefelau llythrennedd a rhifedd ar blant mewn pedair ysgol yn Seland Newydd. Neilltuwyd plant (8–9 oed) i grŵp dawns (n = 101) neu grŵp rheoli (n = 86). Cymerodd pob grŵp dawns ran mewn rhaglen ddawns chwe wythnos (tair awr/wythnos) wedi'i hintegreiddio â'r cwricwlwm. Gwerthuswyd mathemateg a dawn darllen - gwaelodlin ac ôl-ymyrraeth - gan ddefnyddio holiaduron safonol. Rhannodd y cyfranogwyr ganfyddiadau o'r rhaglen trwy fyfyrddodau cyfnodolion a grwpiau ffocws. Adroddwyd am effaith gadarnhaol ar ddarllen i blant ag anghenion arbennig a'r rhai o dras Asiaidd. Mae myfyrddodau plant yn awgrymu y gallai'r rhaglen fod wedi dyfnhau dealltwriaeth plant o fathemateg a gwell geirfa a dealltwriaeth Saesneg.

Sharma, G., Nikolai, J., Duncan, S. and Stewart, T. (2023) Impact of a Curriculum-integrated Dance Program on Literacy and Numeracy: A Mixed Methods Study on Primary School Children, *Journal of Dance Education*, 23(1), pp. 18-30.



## Asesu llesiant yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae lles yn anoddach ... mae'n rhaid i chi feddwl o ddifrif yn ei gylch, nid yw'n syml, ac mae'n faes anodd iawn i'w wneud yn dda.'

Ystyrir bod lles plant yn rhan bwysig o addysg plentyndod cynnar ond ychydig a wyddys am ystyr llesiant a sut y caiff ei weithredu yng nghyd-destun y cwricwlwm. Mae'r astudiaeth achos yn cynnwys dwy ysgol - chwe grŵp ffocws a phedwar ar ddeg o gyfweiliadau gydag ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn ansicr ynghylch sut i asesu lles plant ac felly'n tynnu ar yr hyn y maent yn ei wneud mewn meysydd pwnc eraill ac yn defnyddio asesiad sy'n cyfeirio at feini prawf. Mae ymarferwyr hefyd yn adrodd am anawsterau amrywiol wrth asesu llesiant sy'n awgrymu bod rhoi lles ym mholisi'r cwricwlwm yn broblemus. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod llesiant yn cael ei ddeall fel cysyniad haniaethol lle mae ymarferwyr yn ceisio ei drawsnewid yn ffurf diriaethol er mwyn ei asesu. Mae angen trafod cwestiynau sy'n cysylltu â rhesymeg, cysyniad, deddfiad ac asesu wrth ystyried llesiant.


Lewis, A. (2023) Understanding how practitioners in Wales assess well-being in the early years curriculum, *Education 3-13*, 51(5), pp. 780-792, doi: 10.1080/03004279.2021.2011943.



## Gweithgareddau ymchwil Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored

Ar hyn o bryd mae Ysgol Nantgwyn a'r Brifysgol Agored yn archwilio datblygiad fframwaith/pecyn cymorth i gefnogi gosod targedau personol ar gyfer athrawon ar ddechrau eu gyrfa. Mae saith o athrawon yn cymryd rhan fel ymchwilwyr-cyfranogwyr gan fyfrio ar arfer ac archwilio agweddau megis sefydlu perthnasoedd cadarnhaol, monitro cynnydd a gwella cysondeb mewn arferion. Darparwyd cyllid gan Gonsortia Canolbarth y De i gefnogi'r gwaith hwn. Mae cronfa Praxis y Brifysgol Agored hefyd yn cefnogi astudiaeth sy'n edrych ar ddatblygiad sgysiaau proffesiynol. Bydd Tiwtoriaid Ymarfer yn cyfrannu at drafodaeth grŵp ffocws, gyda rhai mentoriaid ac athrawon dan hyfforddiant hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfod adolygu ymarfer a chyfweliad a recordiwyd. Bydd canfyddiadau'r ddwy astudiaeth ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### Prosiect y Brifysgol Agored



Gan ddefnyddio Cymru fel astudiaeth achos - mae'r prosiect ymchwil 'Changemakers' yn archwilio gwella dealltwriaeth oedolion ifanc o wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan raglen '[Heriau Cymdeithasol Agored](#)' y Brifysgol Agored.

Cliciwch [yma](#) i ddarganfod mwy a gwylwch y [fideo](#) hwn am Changemakers.

